Office for Nuclear Regulation (ONR)
Quarterly Site Report for
Trawsfynydd nuclear licensed site

Report for period 1 October – 31 December 2015

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed quarterly to members for the Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (http://www.onr.org.uk/llc/).

Site inspectors from ONR usually attend Trawsfynydd SSG meetings and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR.

TABLE OF CONTENTS

1 INSPECTIONS 3
2 ROUTINE MATTERS 3
3 NON-ROUTINE MATTERS 4
4 REGULATORY ACTIVITY 4
5 NEWS FROM ONR 4
6 CONTACTS 5

1 INSPECTIONS

1.1 Dates of inspection

The ONR inspectors made inspections on the following dates during the quarter:

- 5 - 7 October 2015
- 20 October 2015

2 ROUTINE MATTERS

2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- The conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- The Energy Act 2013;
- The Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74);
- Regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 1999 (IRR99), the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99) and Nuclear Industries Security Regulations 2003 (as amended); and
- The Carriage of Dangerous Goods and Use of Transportable Pressure Equipment Regulations 2009.

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, routine and reactive unplanned inspections at Trawsfynydd covered the following:

- Accumulation of radioactive waste (Licence Condition (LC) 32)
- Management of organisational change (LC 36)
- The Ionising Radiations Regulations 1999

System inspections focus on the significant safety systems and structures derived from Trawsfynydd safety cases. ONR did not undertake a system inspection during this quarter.

The inspections found that compliance with the Ionising Radiations Regulations was to an adequate standard with some minor opportunities for improvement. The implementation of the arrangements for licence conditions 32 and 36 were judged to be below standard.

In the area of accumulation of radioactive waste, some weaknesses in the waste management procedures were identified and there were improvement opportunities for the management and control of some low and intermediate level wastes on site to achieve a better alignment with relevant good practice.

The company management of organisational change procedures were found to be not fully implemented on site and as a result some changes to its organisational structures may not have been controlled adequately. In all cases the site made satisfactory commitments to address the issues identified, and the ONR Nuclear Safety site inspector will monitor progress. Where necessary, ONR can take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

2.2 Other work

The Nuclear Safety site inspector along with specialist ONR Nuclear Liabilities Regulation inspectors attended a decommissioning programme project meeting at site with the Natural Resources Wales site inspector. This meeting provided opportunity for the regulators to monitor and influence the definition of the Trawsfynydd site care and maintenance entry configuration.

3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were no such matters or events of significance during the period.

4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site licence conditions, ONR issues regulatory documents, which either permit an activity or require some form of action to be taken; these are usually collectively termed 'Licence Instruments' (LIs), but can take other forms. In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

Reports detailing regulatory decisions are available on the ONR website at http://www.onr.org.uk/pars/.

- No LIs or Enforcement Notices were issued during the period.

5 NEWS FROM ONR

Chief Executive

Adriènne Kelbie has been appointed Chief Executive of ONR and took up the appointment on 18 January 2016. Adriènne was previously the Chief Executive of the Disclosure and Barring Service, and prior to this has had a varied career including periods as Deputy Chief Executive in a local authority and as Director of Operations responsible for national and international funding at the Big Lottery Fund.

Chief Nuclear Inspector

ONR is currently recruiting for its Chief Nuclear Inspector. The Chief Nuclear Inspector has the key role in providing assurance on the effectiveness of the UK's nuclear regulatory system to the ONR Board, ministers, licensees and the British public and will represent ONR nationally and internationally. The closing date for applications was Sunday 17 January 2016 and the recruitment campaign has now progressed to the next stage. Further updates on the recruitment campaign will be published on our website www.onr.org.uk.

Regulation Matters magazine

Insight into ONR's work as an independent regulator of the nuclear industry can be found in Regulation Matters. This quarterly online publication (http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm) reports on the key themes and developments in each of ONR's regulatory programmes and provides an update about the on-going changes at ONR. For the latest news and updates from ONR, you can also visit the website and sign up for our e-bulletin: http://www.onr.org.uk/index.htm.

6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS
website: www.onr.org.uk
email: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication please visit http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Office for Nuclear Regulation, 2016*
If you wish to reuse this information visit www.onr.org.uk/copyright.htm for details.
Published 1/16

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.

Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer
Safle niwclear trwyddedig Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2015

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1 ARCHWILIADAU 3
2 MATERION ARFEROL 3
3 MATERION ANARFEROL 4
4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO 4
5 NEWYDDION GAN YR ONR 4
6 CYSYLLTIADAU 5

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygwyr yr ONR arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y chwarter:

- 5 - 7 Hydref 2015
- 20 Hydref 2015

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- Y Ddeddf Ynni 2013;
- Y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74);
- Rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99) a Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau Niwclear 2003 (fel y'i diwygiwyd); a
- Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnydd o Gyfarpar Pwysedd Cludadwy 2009.

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd archwiliadau rheolaidd a heb eu cynllunio ar safle Trawsfynydd y canlynol:

- Croniad o wastraff ymbelydrol (Amod Trwydded (LC) 32)
- Rheoli newid sefydliadol (LC 36)
- Y Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio 1999

Mae archwiliadau system yn ffocysu ar y systemau diogelwch a strwythurau arwyddocaol yn deillio o achosion diogelwch Trawsfynydd. Ni chyflawnodd yr ONR archwiliad system yn ystod y chwarter hwn.

Canfu'r archwiliadau fod cydymffurfiad gyda'r Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio i safon ddigonol gyda rhai mân gyfleoedd ar gyfer gwelliant. Barnwyd fod gweithrediad y trefniadau ar gyfer amodau trwydded 32 a 36 yn is na'r safon.

Ym maes croniad gwastraff ymbelydrol, nodwyd rhai gwendidau yn y gweithdrefnau rheoli gwastraff ac roedd cyfleoedd ar gyfer gwelliant i'r rheolwyr a rheolaeth o rai gwastraff lefel isel a chanolig ar y safle i gyflawni gwell aliniad gyda'r arfer da perthnasol.

Canfuwyd fod rheolaeth cwmni o weithdrefnau newid sefydliadol heb eu gweithredu'n llawn ar y safle ac o ganlyniad efallai nad oedd rhai newidiadau i'w strwythurau sefydliadol wedi eu rheoli'n ddigonol. Ym mhob achos, gwnaeth y safle ymrwymiadau boddhaol i ddatrys y materion a nodwyd, a bydd arolygydd safle Diogelwch Niwclear yr ONR yn monitro cynnydd. Lle bo angen, gall yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

2.2 Gwaith arall

Mynychodd yr arolygydd safle Diogelwch Niwclear ynghyd ag arolygwyr Rheoleiddio Atebolrwydd Niwclear arbenigol yr ONR gyfarfod prosiect rhaglen datgomisiynu ar y safle gydag arolygydd safle Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i'r rheolyddion fonitro a dylanwadu ar ddiffiniad ffurfweddiad gofal safle a chofnod cynnal a chadw Trawsfynydd.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol o'r fath yn ystod y cyfnod.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Mae adroddiadau yn disgrifio penderfyniadau rheoleiddiol ar gael ar wefan yr ONR ar http://www.onr.org.uk/pars/.

- Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Prif Weithredwr

Penodwyd Adriènne Kelbie yn Brif Weithredwr yr ONR a dechreuodd yn y swydd ar 18 Ionawr 2016. Cyn hyn roedd Adriènne yn Brif Weithredwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a chyn hynny mae wedi dilyn gyrfa amrywiol, gan gynnwys cyfnodau fel Dirprwy Brif Weithredwr mewn awdurdod lleol a Chyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer cyllid cenedlaethol a rhyngwladol yn y Gronfa Loteri Fawr.

Prif Arolygydd Niwclear

Ar hyn o bryd mae'r ONR yn recriwtio ar gyfer ei Brif Arolygydd Niwclear. Mae gan y Prif Arolygydd Niwclear rôl allweddol wrth ddarparu sicrwydd ar effeithiolrwydd system reoleiddio niwclear y Deyrnas Unedig i Fwrdd yr ONR, gweinidogion, trwyddedigion a'r cyhoedd ym Mhrydain a bydd yn cynrychioli'r ONR yn genedlaethol a rhyngwladol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd dydd Sul 17 Ionawr 2016, ac mae'r ymgyrch recriwtio nawr wedi symud i'r cam nesaf. Cyhoeddir diweddariadau pellach ar yr ymgyrch recriwtio ar ein gwefan www.onr.org.uk.

Cylchgrawn Regulation Matters

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters. Mae'r cyhoeddiad ar-lein chwarterol (http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. I gael y

newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, gallwch hefyd droi at y wefan a chofrestru ar gyfer ein e-fwletin. http://www.onr.org.uk/index.htm.

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2016*
Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 1/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.